

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.

1. Cyflwyniad

Mi fydd yr aseiniad yma yn trafod ac adnabod camau dysgu ac addysgu nesaf sydd yn canolbwyntio ar astudiaeth achos ble wnaeth yr ymchwilydd arsylwi ar achos critigol o sefyllfa ysgol. Pwrpas yr aseiniad yw cael mewn i'r arfer o arsylwi gwersi a chymryd nodiadau o'r arsylwadau, fel agwedd graidd o addysg gychwynnol athrawon gan ddatblygu sgiliau adfyfrio yn ystod y cwrs TAR.

Er y term achos critigol, nad oes rhaid i'r digwyddiad bod yn un negyddol neu peryglus, fel esboniodd Shapria-Lishchinsky "In the educational system, critical incidents are not necessarily sensational events involving a lot of tensions. Rather, they may be minor incidents that happen in every school." (Shapria-Lishchinsky, 2011, tud.649). Mae Joshi (2018, tud. 82) yn egluro achos critigol fel digwyddiad sydd heb gael ei ragweld ar safle ysgol yn ystod gyrfa athro. Felly dylech chi ystyried y term achos critigol fel digwyddiad neu achos sydd yn achosi newid arwyddocaol yn ymddygiad yn y dosbarth (Tripp, 2012 tud.24), felly naill ai newid i ymddygiad y disgyblion neu'r athrawon, fel ysgrifennodd Tripp, gall achos critigol codi ynglŷn â datblygiad emosiynol a chymdeithasol yr unigolyn (2012, tud.9). Mae'r label o achos critigol hefyd yn dibynnu ar yr arwyddocâd ac yr ystyr mae athrawon sydd yn cynnal yr arsylwad yn rhoi ar y digwyddiad, felly yn oddrychol.

Bydd strwythur yr aseiniad yma yn cynnwys cyd-destun yr ysgol er mwyn rhoi cefndir cyd-destunol i'r ysgol ble digwyddodd yr achos critigol. Mi fydd yr aseiniad yn arddangos dealltwriaeth a gwerthusiad o fodelau a thechnegau arsylwi, a'r ffocws yr aseiniad yw'r achos critigol a'i gysylltiad i'r cwricwlwm newydd ac yn enwedig i'r Pedwar Diben o'r adolygiad Graham Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus'. Bydd y gwerthusiad yn ehangu i ystyried yr effaith a'r goblygiadau cafodd yr achos ar weddill y dosbarth ac yr athrawon, ac os yw'n bosib defnyddio'r achos critigol i ddysgu ac i wella sgiliau addysgu i'r dyfodol, os yw'n bosib.

2. Arsylwi

Mi oedd yr aseiniad yma angen ymchwil ac arsylwadau o fewn amgylchedd ysgol. Mi fydd yr aseiniad yn cyfeirio at yr ysgol ble wnaeth yr arsylwadau cymryd lle fel Ysgol X. Yn ôl Canllawiau BERA, "Researchers should recognise the entitlement of both institutions and individual participants to privacy, and should accord them their rights to confidentiality and anonymity." (BERA, 2018, tud. 21). Er ganllawiau BERA bydd yr aseiniad ddim yn sôn am enwau unrhyw ddisgyblion ac yn lle yn cyfeirio atyn nhw fel Disgybl A, Disgybl B ac yn y blaen, os oes rhaid.

Mae Ysgol X yn ysgol cyfuniad cymysg o ferched a bechgyn ac yn ysgol ganol ac felly yn cael ystod oedran o 3 i 19, felly yn dechrau o gyfnod sylfaen, cyfnod allweddol un, dau, tri, pedwar a phump. Mae Ysgol X o fewn yr Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf. Yn 2018 nifer y disgyblion yn yr ysgol oedd 639 (Fy Ysgol Leol, 2018), felly yn ysgol â niferoedd isel. Mae yna 6.5% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, ar draws yr adran uwchradd. Mae'r canran yma yn llai na'r cyfartaledd ar draws Cymru sef 16.6% ac yn hyd yn oed llai na chanran yr awdurdod lleol, o 19.1% (Fy Ysgol Leol, 2018). Sydd yn awgrymu bod gan Ysgol X lefel is o anafanteision cymdeithasol, i gymharu â gweddill Cymru a'r awdurdod lleol. Pryd cafodd Ysgol X ei arolwg Estyn yn 2017, teimlodd yr arolygwyr fod gan yr ysgol ymdeimlad dda o gymuned ble mae'r plant yn gyfrifol am gyfrannu'n lawn at yr ymdeimlad hyn, sydd yn cyfrannu at agwedd positif y plant tuag at eu gwaith academiaidd (Estyn, 2017, tud. 2 a 5).

Wrth gynnal fy arsylwadau yn Ysgol X, roedd y ffocws ar flwyddyn 9 felly oed y plant oedd rhwng 12 ac 13 blwydd oed. Digwyddodd yr achos critigol ar y 26ain o Fedi, 2019 ac yn ystod gwers Addysg Gorfforol â gallu cymysg mewn dosbarth o 20 o fechgyn ar ôl amser cinio, 13:10y.p. tan 2:05y.p.

3. Methodoleg

Mae yna nifer o wahanol fodelau o arsylwi, am yr aseiniad yma, defnyddiodd y dull arsylwad di-cyfrannog. "Observation can be a powerful research tool, but it is not without its difficulties..." (Cohen, 2007, tud.397), felly mae arsylwi ar ei hun yn cael nifer o fanteision ac anafanteision. Ond un o'r manteision mwyaf nodedig yw bod y dull yn galluogi'r ymchwilwyr i gasglu data fel mae'n digwydd, yn naturiol (Cohen, 2007, tud.396). Felly nad oes risg o gael data ail-law anghywir. Wrth arsylwi mae rhaid cydnabod sgiliau mae'r plant yn dangos, y fath o ryngweithio yn y dosbarth rhwng y disgyblion, eu cyfoedion ac yr oedolion yn yr ystafell dosbarth ac yn olaf y rhyngweithio'r disgyblion â eu hamgylchedd gan ystyried eu cyflawniadau.

I ymledu, mae arsylwad di-cyfrannog yn fodd o arsylwadau ble bydd yr arsylwr yn eistedd yn y cefn, heb gyfathrebu a neb gan gynnwys cyswllt llygaid, fel dywed Basit (2010 tud.125). Pwrpas hyn yw ceisio lleihau unrhyw effaith gall cael ar y nodiadau maes, ond wrth fod yn yr ystafell dosbarth mae'n wneud yn siŵr bod yr arsylwr yn gallu casglu data ei hun felly nid oes angen dibynnu ar ddata unrhyw un arall. Ond mae pwynt Burton a Bartlett (2009, tud.117) yn gwrthgyferbynnu hyn oherwydd maent yn dadlau bydd arsylwyr yn effeithio ar y sefyllfa, fel bydd arolygwyr ysgol yn newid ymddygiad y plant ac yr athrawon.

Casglodd yr arsylwyr data ansoddol, fel dwedodd Lichtman (2013, tud.3) "Qualitative research is a general term that describes in-depth research about human behaviour." Felly yn glir pam mae data ansoddol yn berthnasol wrth gasglu data wrth arwain arsylwadau o fewn ystafell dosbarth. Wrth gasglu data ansoddol, mae hi'n hanfodol bod yr ymchwilyr yn ysgrifennu eu nodiau maes mor gynt a sy'n bosib os nad oedd cyfle ganddyn nhw yn ystod yr arsylwad, er mwyn sicrhau statws o ddibynadwyedd. Fel dywed Basit (2010, tud. 202) bod ysgrifennu nodiadau maes yn ystod y proses ymchwil yn gallu fod y cyfnod mwyaf pwysig. Gan dderbyn bydd y datblygiad yr ysgrifennu yn parhau trwy gydol yr aseiniad, mae'r nodiadau cychwynnol mor bwysig i ddatblygiad yr ymchwil. Cytunodd Tripp â'r gosodiad, gan ychwanegu heb nodi'r nodiadau'r gall cymryd pethau ni'n gweld yn ganiataol ac felly ddim hyd yn oed yn ystyried fel achos critigol (Tripp, 2012, tud.41-42). Anfantais data ansoddol yw bod gan y mwyafrif o arsylwr yn dangos gormod o ymrwymadau tuag at eu maes a'u pwnc (Richards, 2009, tud. 23). Felly maent yn bosib iddyn nhw dangos tuedd, neu chwilio am duedd gan anwybyddu pethau, hyd yn oed os yn isymwybodol.

Pwrpas astudiaeth achos yw darparu portread o bobl go-iawn mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac yn galluogi'r arsylwr i gasglu llawer o ddata. Ond mi fydd rhai unigolion yn dadlau bod y dechneg o astudiaeth achos yn rhy oddrychol a bydd y data a gasglwyd yn rhoi gormod i'r ymchwiliwr dehongli (Flyvbjerg, 2006, tud. 219). Nad oedd astudiaeth achos yn berthnasol oherwydd bydd astudiaeth achos wedi para am fwy o amser ac yn astudiaeth llawer mwy dwys, "it essentially examines a case in depth" (Basit, 2010, tud. 21). Ni all yr arsylwr defnyddio'r fethodoleg o astudiaeth achos oherwydd ond diwrnod o arsylwi oedd, felly ni all wedi cael y cyfle i ymchwilio y dosbarth yn fwy dwfn.

Y dull samplu oedd y mwyaf perthnasol i gymhwyso i'r arsylwad yma oedd samplu cyfle. Samplu cyfle yw'r dull o gasglu sampl gan ddefnyddio'r sampl sydd ar gael yn rhwydd. Mae rhaid cofio nad yw'r dull yma yn ceisio cyffredinol neu yn gynrychiadol o'r boblogaeth (Basit, 2010, tud. 52). Mae hyn yn bwysig i nodi oherwydd nad ydy'r aseiniad neu'r achos critigol yn honni ei fod yn gynrychiadol o'r boblogaeth, gall fod yn anfantais ond oherwydd cyd-destun yr arsylwad nad yw'n ymddangos fel anfantais oherwydd maent yn achos critigol.

4. Y Digwyddiad Beirniadol

Fel nodwyd yn gynharach, digwyddodd yr achos critigol yn ystod gwers Addysg Gorfforol. Y sampl oedd dosbarth o ddeuddeg o fechgyn ym mlwyddyn naw. Yn syml, wnaeth pedwar disgybl anghofio eu cit Addysg Gorfforol. Cafon nhw stŵr o'r athrawon o flaen y dosbarth, nodyn yn eu llyfrau cyswllt a nodyn ar y system cofrestru. Roedd un ohonynt wedi brifo ei goes ac felly methu cymryd rhan yn gorfforol, wnaeth un arall colli ei git a wnaeth y dau arall anghofio eu cit. Fel arfer, os bydd disgybl yn anghofio ei git chwaraeon, ni fyddwn nhw yn cymryd rhan yn y wers. Ond, penderfynodd yr athro yn lle cael dau dîm o ddeg, i gael pedwar tîm o bump, fel gall y disgyblion a wnaeth anghofio eu cit dal cymryd rhan ond fel hyfforddwr, a chael tîm yr un. Rhoddodd hyn y cyfle i'r hyfforddwyr gwella eu sgiliau cyfathrebu, rheoli ac esbonio ond yn enwedig, o safbwynt athro Addysg Gorfforol, gwella eu sgiliau pêl-droed, gan weld yn uniongyrchol beth sydd yn mynd yn anghywir gan helpu eu cyfoedion i wella yn erbyn y tîm arall. Gan newid cynllun y wers mae'r athro yn sicrhau bod y disgyblion i gyd yn cymryd rhan, gan sicrhau cynhwysiad.

Mae hyn yn gysylltiedig â rhai o'r pedwar diben Graham Donaldson. I ddechrau y Pedwar Diben Donaldson yw i fod yn:

ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes, yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith, yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd, yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas (Donaldson, 2015, tud. 29).

Pwrpas y pedwar diben yw cyfeiriadau cyffredinol i ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu yn gyfannol, maent yn ymwneud â goblygiadau i'r gymdeithas ac yr unigolyn. I ddechrau, mae'r sampl yn gyfranogwyr mentrus a chreadigol oherwydd roedd y bechgyn yn cyfrannu i'r wers ond o fewn ffordd wahanol, yn y cyd-destun yma, fel hyfforddwyr. Chwaraeon nhw rôl wahanol mewn timoedd yn effeithiol gan gymryd cyfrifoldeb. Cymeron nhw'r cyfle i chwarae rôl wahanol yn ystod gwers Addysg Gorfforol, felly wnaethon nhw adnabod cyfle ac o ganlyniad buddion nhw. Fel nodir yn gynharach, cymeron nhw'r cyfle i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, arweiniol ac i rai efallai eu hyder. Sydd yn gysylltiedig â'r ail ddiben o fod yn unigolion iach a hyderus. Ac yn olaf, gan ddangos eu bod yn gallu cyfathrebu yn effeithiol mewn gwahanol ffurf a lleoliadau a gan eu bod mewn ysgol Gymraeg, trwy'r Gymraeg a Saesneg, fel sydd angen trwy chwarae rôl fel hyfforddwr, dangoson nhw eu fod nhw yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog (Donaldson, 2015, tud. 29-

31). Dangosir hyn bod yr ysgol yn gweithredu y cwricwlwm newydd ac yn ymwybodol o'r pwysigrwydd.

5. Adolygiad y Llenyddiaeth

Mae'r achos critigol wedi cynnwys cynhwysiad, felly i gynnwys pob disgybl yn y wers. Mae'r ymchwil hefyd wedi canolbwyntio ar asesu cyfoedion, gan dyma oedd eu tasg wrth gymryd y rôl fel hyfforddwyr, y trydydd ffocws yr achos critigol yw rheoli ymddygiad, gan edrych ar sut wnaeth yr athro cosbi'r pedwar bechgyn am anghofio eu cit.

I ddechrau, mi fydd yr aseiniad yn edrych ar y llenyddiaeth sydd wedi sefyll allan wrth ymchwilio i mewn i'r topig o gynhwysiad. Y fath o gynhwysiad mae'r aseiniad yn canolbwyntio ar yw cynnwys pob disgybl yn y wers, gan gynnwys y rhai sydd wedi anghofio eu hadnoddau, neu, yn y sefyllfa fel digwyddodd yn yr achos critigol, anghofio eu cit chwaraeon. Yn yr achos yma fe wnaethon nhw gyfranogi, hyd yn oed nad oedd ganddyn nhw'r adnoddau cywir, a gall rhai dadlau eu bod wedi chwarae rhan angenrheidiol, fel hyfforddwyr. Mae mwyafrif o ymchwil ar gynhwysiad ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol ac felly rhaid ystyried hynny wrth ddarllen yr adolygiad o'r llenyddiaeth, fel llyfr Tilstone a Rose, *Strategies to Promote Inclusive Practice*. Pwrpas y llyfr yma yw i ysgolion, yn bennaf, yw i helpu cefnogi a datblygu eu strategaethau i sicrhau addysg gynhwysol (Tilstone a Rose, 2003, tud. 1). Gan gydnabod hyn, mae llyfr Powell a Tummons, *Inclusive Practice in the Lifelong Learning Sector* yn trafod y faith bod o fewn unrhyw ddosbarth, bydd wastad disgyblion sydd ag anghenion gwahanol, o disgyblion â galluoedd, disgwyliadau a gobeithion gwahanol, mae rhaid i athrawon cymhwyso yr awyrgylch dysgu iddyn nhw (Powell a Tummons, 2011, tud.63). Mae'r llyfr yma wedi ei dargedu at bobl sydd yn gweithio tuag at ennill cymhwyster dysgu, athrawon neu hyfforddwr addysg uwch, trwy ddarllen y llyfr mae'n amlwg ei fod wedi anelu at ddysgwyr oed 14-19. Ond teitl y llyfr yn awgrymu ei fod yn paratoi dysgwyr am addysg gydol-oes, mae dysgu yn broses raddol sydd ddim yn llinol, "it zigzags, or dances, side to side and forwards and backward..." (Voko, Duci a Tahsini, 2014, tud. 21), sydd yn gefnogol o'r ysgol ddyniaethol felly hyd yn oed bod pwyslais mawr yn y llyfr yma ar yr oedrannau 14-19, gall dal cymhwyso i blant blwyddyn naw, a'r dosbarth o'r achos critigol yn enwedig. Mae'r llenyddiaeth yma yn pwysleisio, fel athrawon, yr angen i allu addasu eu hymarferion addysgu o fewn yr amgylchedd dysgu er mwyn gallu hybu cynhwysiad wrth addysgu (Powell a Tummons, 2011, tud. 63).

Yr ail bwnc mi fydd yr aseiniad yn canolbwyntio ar yw asesu cyfoedion a beth sydd wedi cael ei darganfod am hyn a'r llenyddiaeth sydd wedi helpu strwythuro'r aseiniad. Asesu cyfoedion yn fath o asesu ffurfiannol neu asesu ar gyfer dysgu – oni bai bydd y wybodaeth sydd yn cael eu canfod o asesu cyfoedion yn helpu datblygu dysgu'r disgyblion (ERW, 2015, tud.7).

Wrth drafod y llenyddiaeth sydd yn trafod asesu cyfoedion, un llyfr mi fydd yr aseiniad yn adolygu yw llyfr Banta *Building a Scholarship of Assessment*, mae'n bwysig nodi nad yw'r llyfr yn canolbwyntio ar asesu cyfoedion yn unig ond asesu yn gyffredinol. Mewn gwirionedd, beth mae'r llyfr yn dweud am asesu cyfoedion yn gryno, ond yn cydbwysu'r manteision ac anfanteision gan gynnig gwelliannau. Enghraifft o anfantais yw bod pryder yn amgylchu plant ddim yn asesu eu ffrindiau fel pysen nhw yn asesu disgybl nad ydynt mor agos efo (Banta, 2002, tud. 161). Er mwyn goresgyn y broblem yma, mae'r awdur yn awgrymu i fabwysiadu adolygiad dienw (Banta, 2002, tud.16). O ganlyniad nad yw'r disgyblion yn poeni am frifo teimladau ffrind, gan nad ydynt yn ymwybodol pwy sydd wedi cynnig y sylwadau. Gan nad oedd y llyfr yma wedi canolbwyntio yn llwyr ar asesu cyfoedion, nad oedd y llyfr wedi helpu arwain yr ymchwili, serch hynny cefnogodd y llyfr yr ymchwili gan gadarnhau yn syml ac yn uniongyrchol sut teimlodd yr ymchwilydd. O fewn sefyllfa fel yr achos critigol, mi fydd hyn yn dechneg anodd i fabwysiadu i mewn i'r wers Addysg Gorfforol, ond mae'n bwysig i gofio wrth gynnal y wers. Efallai ceisio gwahanu grwpiau o ffrindiau wrth wahanu'r dosbarth, ond ni fydd hyn yn bosib pob tro i bob disgybl, er enghraifft os bydd dosbarth bach efo nifer llai o ddisgyblion felly gall y plant gwybod ei gilydd yn well ac yn ffrindiau gwell.

Mae yna nifer fawr o fanteision defnyddio asesu cyfoedion ac mae yna nifer o esiamplau o lenyddiaeth i drafod. Yr enghraifft cyntaf yw llyfr Black et al *Working Inside the Black Box: Assessment for Learning in the Classroom*. Pwrpas y llyfryn yw trafod a chanolbwyntio ar asesu ar gyfer dysgu. Un o'r prif manteision mae'r llyfryn yn sôn am yw gall y disgybl cymryd sylwadau o eu cyfoedion yn fyw difrifol na os bydd yr athro wedi cynnig yr un sylwadau. Mae'r awduron yn ehangu gan awgrymu, efallai mae hyn oherwydd mae'r sylwadau yn cael eu cyflwyno mewn iaith mwy perthnasol a chyfarwydd (Black et al, 2002, tud. 10). I ymledu yn fwy dwfn eto, gan fod y sylwadau o fewn iaith fwy cyfarwydd, mi fydd y disgyblion yn teimlo'n fwy cyfforddus i dorri ar draws eu cyfoedion i ofyn cwestiwn os nad ydynt yn deall i gymharu ag athro. Wrth adolygu'r darn o lenyddiaeth yma nad oes llawer ar asesu cyfoedion, ond mae pwyslais clir ar yr arwyddocâd sydd gan asesu cyfoedion o fewn y sefyllfa ysgol, a sut maent yn gallu hybu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. Darn o lenyddiaeth sydd hefyd wedi cefnogi dealltwriaeth yr aseiniad ynglŷn ag asesu cyfoedion yw *A Briefing on Self, Peer and Group Assessment*. Yn amlwg, nad ydy'r llyfr ond yn canolbwyntio ar asesu cyfoedion, ond maent yn trafod sut mae'r tri math o asesu yn gysylltiedig efo ei gilydd a sut mae pob un yr un mor bwysig. Mae'r llyfr yn trafod gwerth asesu cyfoedion o fewn sefyllfa addysgol. Un o'r brawddegau a wnaeth profi'r defnydd o asesu cyfoedion y mwyaf oedd sut mae'r tair math o asesiad yn amlygu brwdfrydedd ac yr eisiau i ddysgu'r disgyblion (Race, 2001, tud.19). Gallwch ddadlau dyma yw'r elfen bwysicach i asesu cyfoedion, neu hyd yn oed i addysgu, fel athrawon dyma beth ddylen nhw

fod yn anelu tuag at; i hybu brwdfrydedd eu disgyblion ac mae'r darn o lenyddiaeth yma yn esbonio gall cyrraedd hyn trwy weithredu asesu cyfoedion yn eu gwersi.

Felly wrth adolygu'r tri darn o lenyddiaeth ar asesu cyfoedion, maent yn cefnogi dewis yr athro o ddefnyddio asesiad cyfoedion gan bwysleisio effaith positif gall cael ar ddatblygiad a dealltwriaeth y plant. Mae'r tri darn yn trafod manteision ac anfanteision y defnydd o asesu cyfoedion ond wedyn yn darparu ffordd i oresgyn unrhyw broblemau fel sut i oresgyn y broblem o asesu gwaith ffrind, mae Banta a Race yn awgrymu ffordd o oresgyn y broblem yma gan ddarparu'r sylwadau yn ôl yn ddiennw. Ni fydd hyn wedi gallu gweithio o fewn yr achos critigol, ond am dro nesaf yn bwysig i ystyried ac i weld sut i weithredu mewn i wersi Addysg Gorfforol.

Yn olaf, edrychodd ar reoli ymddygiad, gan dyma beth oedd wedi strwythuro'r achos critigol. Wrth gynnal ymchwil mewn i reoli ymddygiad, roedd y llyfr Morgan, *Quick, Easy and Effective Behaviour Management Ideas for the Classroom* wedi atgyfnerthu'r pwysigrwydd o'r gallu i addasu adnoddau i ofynion y dosbarth a'r disgyblion (Morgan, 2009, tud.47). Sydd yn cefnogi'r angen i addasu'r cynllun gwers ac adnoddau yn lle cyfyngu eu gallu i gyfranogi yn y wers. Mae pob dysgwr yn dysgu yn wahanol, gan gyfyngu eu cyfranogiad, gall hyn fod yn niweidiol i gymhelliant y disgyblion. Yn yr achos critigol yma, os bydd yr athro wedi penderfynu peidio addasu'r cynllun i greu rôl fel hyfforddwyr i'r pedwar bachgen, gall hyn wedi niweidio cymhelliant y bechgyn yng ngwersi Addysg Gorfforol neu eu cymhelliant ar draws yr ysgol yn gyffredinol. Ond, mae'r llyfr hefyd yn pwysleisio arwyddocâd rheolau (Morgan, 2009, tud. 20) a threfn (Morgan, 2009, tud. 15). Nad ydy'r achos critigol yn dadlau hyn, ond yn pwysleisio'r arwyddocâd o addasu pan mae rhaid. Llyfr arall cafodd yr ymchwil ei selio ar oedd llyfr Rogers, *You Know The Fair Rule* mae'r llyfr yn trafod cymorth y rhieni, "call on parents to assist by mutual understanding" (2012, tud. 18). Tra roedd yr athro yn ysgrifennu nodyn yn llyfrau cyswllt y bechgyn, rhoddodd rhybudd ar lafar, os oedd y bechgyn am anghofio eu cit am ail dro, bydd yna alwad ffôn adref. Mae'r llyfr yma yn cefnogi penderfyniad yr athro, gan atgyfnerthu'r buddion o'r cyfathrebiad â'r cartref, gan fod y teulu neu warcheidwaid yn gallu cynnig dealltwriaeth gilyddol. Yn yr achos yma, os mae'r rhieni yn adnabod y broblem o anghofio cit Addysg Gorfforol, mae'r teulu neu warcheidwaid yn gallu helpu cefnogi'r plentyn i beidio anghofio eu cit yna neu i adnabod y gosb i wybod nad ydynt yn gallu anghofio eu cit eto.

Wrth adolygu'r prif ffynonellau o lenyddiaeth ar gyfer yr aseiniad, mae yna nifer fawr o lyfrau gwerthfawr sydd yn rhoi syniadau a safbwyntiau gwahanol, ond fel popeth mae hefyd agweddau rhaid ystyried wrth gynnwys y gwaith yn yr aseiniad. Er enghraifft llyfr *Quick, Easy and Effective Behaviour Management Ideas for the Classroom*, nad ydy'r llyfr wedi seilio ar

anhofio cit Addysg Gorfforol, ond mae yna gyfle i gymhwyso cynnwys y llyfr i'r achos i weld sut gall ceisio osgoi'r broblem yma cadw codi. Gan nad oedd yr achos critigol yn un eithafol neu o wir ddiddordeb, nad oes llawer wedi ei ysgrifennu ar y topig, felly mae rhaid edrych ar feysydd mwy cyffredinol fel rheoli ymddygiad ac asesu cyfoedion, ond o ganlyniad roedd yna mwy o ryddid i gymryd safbwynt eang gan ystyried nifer o newidynnau.

6. Adfyfyrion/Gwerthuso a Charnau Nesaf

Mae'r achos critigol ac y tri phrif ffocws, cynhwysiad, asesu cyfoedion a rheoli ymddygiad, yn cefnogi gwaith ymchwil Vygotsky ar P.D.P (Parth Datblygiad Procsimol), gan gynnig mwy o gyfleoedd yng ngwersi Addysg Gorfforol, gall gwella dealltwriaeth y disgyblion am destunau o fewn y wers, gan hefyd sicrhau cymhelliant gan ddarparu rôl o gyfrifoldeb. Yn syml, P.D.P yw'r datblygiad o beth gall dysgwyr gwneud heb help, ac yna beth allan nhw gyflawni efo anogaeth a chyfarwyddiadau o berson mwy medrus, fel athrawon neu gyfoedion mwy medrus (McLeod, 2019). Maent hefyd yn cefnogi rhai agweddau o'r Ysgol Ddyneiddiol, sydd yn blaenoriaethu anghenion emosiynol y dysgwyr, gan sicrhau eu cynhwysiad yn y wers ac atal y disgyblion o dynnu yn nôl, wnaeth yr athro osgoi hunan fri isel y disgyblion. Gan droi'r wers i wers fwy pleserus, bydd y wers yn un mwy cofiadwy ac o ganlyniad yn gallu cofio beth ddysgon nhw yn well (Holt, 2009, tud. xiv). Yn enwedig gan fod y wers yn un a oedd yn sôn am eu diddordebau'r mwyafrif, pêl-droed, wrth gysylltu â gwybodaeth blaenorol, er enghraifft timoedd Abertawe neu Caerdydd. Mae yna ddyfodol am y darganfyddiadau yma, gan sylweddoli'r effaith cynnwys y rôl o hyfforddwy'r cafodd ar y plant, o hyn ymlaen mae'n bosib cynnwys y rôl ym mhob pob gwers. Wrth wneud hyn mae'r athro yn hybu datblygiad yr unigolyn o fewn ei bwnc, Addysg Gorfforol, ac o fewn y thema o bêl-droed, a hefyd eu sgiliau cyfathrebu ac asesu cyfoedion. Gan ganlyniad yn darparu'r cyfle i'w ddisgyblion datblygu o fewn yr ysgol.

Gall hyn digwydd trwy Ysgol X, a hyd yn oed ar draws Cymru oherwydd ei fod yn cefnogi *Dyfodol Llwyddiannus* Donaldson ac y *Safonau Proffesiynol Cymru newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*. Felly yn berthnasol i weithredu i mewn i ysgolion Cymru, yng ngwersi Addysg Gorfforol, pan fydd disgybl yn anghofio eu cit, i ddilyn polisiâu'r ysgol ynglŷn â rheoli ymddygiad er enghraifft nodyn yn y llyfr cyswllt, ond yna i weithredu beth gall y disgyblion heb git gwneud yn ystod y gwersi fel ychwanegu rôl hyfforddwy'r cynllun gwers. Gall gwneud hyn mewn mwy o chwaraeon nid ond pêl-droed, gall defnyddio mewn gwersi criced, rygbi neu unrhyw gêm tîm arall.

Gan edrych ar nodiadau casglodd yr arsylwr, gwelir atodiad *b.* a *dd.*; yn enwedig atodiad *dd.*, yn yr ail focs, ble wnaeth yr athro achosi embaras o flaen dau ddosbarth yn ddiangen o bosib. Dylen nhw wedi cael stŵr, efallai peidio dod â'u cit yn arwydd o ddiogrwydd o'r disgyblion, ond gall hefyd wedi bod nifer o rhesymau, gan gynnwys resymau nad oedd o fewn rheolaeth y disgyblion. Gan roi nodyn yn y llyfr cyswllt a nodyn ar y system cofrestru yn ddigon, gan roi stŵr pwrrpasol wnaeth yr athro cael gwared ag ymddygiad tarfol ac ond yn creu effeithiau byr dymor (Sadik, 2017, tud. 31) ac yn gwrthio'r plant i ffwrdd o ymddygiad da (Sadik, 2017, tud. 40). Felly yn aneffeithiol fel dull o reoli ymddygiad ac yn anwybyddu anghenion emosiynol a phersonol y disgyblion. Gan fod pob disgybl yn unigryw ac yn cael amryw o brofiadau blaenorol sydd yn effeithio ar eu hymddygiad ac agwedd mae rhaid addasu dulliau addysgu a rheoli ymddygiad i bob disgybl a phob dosbarth (McGil, 2013, tud. 59).

Fel ffordd o gasglu nodiadau wrth arsylwi, defnyddiodd y model B.W.A (beirniad wedi adfyfyrio), i adfyfyrio ar yr achos critigol, gwelir atodiad *dd.* am nodiadau cymerodd yr arsylwyr wrth arsylwi ar y wers ble wnaeth yr achos critigol cymryd lle. Wrth ddefnyddio taflennu model B.W.A, gall helpu cefnogi i ddod yn ymarferydd adfyfyriol fel rhan o'r agweddau craidd o addysg athrawon cychwynnol. Gall darganfyddiadau'r achos critigol helpu a chefnogi fy natblygiad proffesiynol a phersonol gan uwch-oleuo yr agen i gefnogi pob disgybl ac i helpu pob disgybl, hyd yn oed os ydynt yn anghofio dod â'u hadnoddau i'r wers. Mae'r achos critigol hefyd wedi dangos yr angen i allu addasu cynllun gwers, i ddisgwyl yr annisgwyladwy. Os nad ydy'r athro/athrawes yn datblygu'r gallu i addasu, gall hyn arwain tuag at y disgyblion yn colli cymhelliant, gan deimlo nad ydynt yn fedrus yn y dosbarth, heb ddim ystyried o ragoriaeth, neu hyd yn oed cwblhau'r lleiaf sy'n ddisgwylidig. Gan addasu'r cynllun gwers, wnaeth yr athro osgoi hwn digwydd o fewn ei wers.

7. Casgliad

I gloi felly, mae'r aseiniad yma yn dangos yr arwyddocâd cynhwysiad yn y dosbarth a'r pwysigrwydd o addasu cynllun i wers, sydd yn sicrhau cynhwysiad o fewn y dosbarth. Wrth asesu'r dull dewiswyd, mae'n bwysig i gydnabod nad oedd llawer o amser ar gael yn yr ysgol a dyma pam dewisodd y dull o achos critigol yn lle astudiaeth achos. Fel rhan o'r fethodoleg roedd rhaid casglu data ansoddol, oherwydd dyna yw'r sylfaen i achos critigol, ni fydd data meintiol wedi bod yn ddigonol i gynnal astudiaeth achos. Gan gynnal yr arsylwadau gan ddefnyddio'r dull di-gyfrannog, roedd yr arsylwr wedi ceisio lleihau'r

newidynnau a oedd yn gallu effeithio ar yr arsylwad ond nad bydd hyn wastad yn bosib, ond gan beidio cyfranogi yn yr arsylwad wedi lleihau effaith yr arsylwr.

Wrth gynnal ymchwil o fewn amgylchedd addysgol, mae'n bwysig ystyried y *Safonau Proffesiynol Cymru newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*. Y pum safon yw Addysgeg, Cydweithredu, Arloesi, Proffesiynol ac Arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2019, tud.15). Pwrpas y pum safon yw datblygu addysgeg yn effeithiol ar draws Cymru, gan hefyd hybu rhyngweithio. Gall y safon arloesi cysylltu'n agos gan ddangos "parodrwydd i ddatblygu a chymhwyso technegau newydd" (Llywodraeth Cymru, 2019, tud.54). Efallai nid yn bwrpasol, ond gan addasu ei gynllun gwers a sicrhau cynhwysiad wnaeth yr athro cyflawni'r safon Arweinyddiaeth gan gefnogi'r arfer cyfrifoldeb corfforaethol gan ddilyn ei "gyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol" (Llywodraeth Cymru, 2019, tud. 58). Wnaeth y dull dewiswyd hefyd cefnogi'r pum safon. Mae darganfyddiadau'r aseiniad, yn cefnogi'r pum safon, gan ddarganfod yr angen i ganolbwyntio ar anghenion emosiynol y disgyblion, ac fel athrawon mae ganddynt gyfrifoldeb i hybu datblygiad y disgyblion. Mae'r achos critigol a dewisiadau yr athro yn cefnogi *Dyfodol Llwyddiannus* Donaldson ac yn dangos bod ysgolion wedi dechrau gweithredu mewn i eu gwersi.

Cyfrif geiriau: 4400

8. Atodiadau

a.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019.
Manylion y wers: Ffrangeg (gwrs cyntaf), ffocus ar wyliau. 9 th - dosbarth cymysg (8:40y.b - 9:35y.b)
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Nad oedd llawer yn canolbwyntio, y rhai oedd eisiau canolbwyntio yn cael eu amharu.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Nad oedd amcanion glir i'r wers, ond roedd amcanion i'r uned a oedd yn gweithio. Roedd amcanion byr i bob dang ar lath.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) I wneud yn dda, roedd rhaid gortyn y cwestiynau wneud yr athrawes gosod, ond nad oedd esampol da.
Mynediad a her (Ydy pob myfyrwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwr ei herio?) O fewn y dosbarth gallu cymysg wneud pob disgybl yr un tasg, ond roedd chwithair i gwrthdaro.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Er mwyn asesu, wneud yr athrawes pigo ar ddisgyblion i orffen y ffrangeg, weithiau yn pigo rhai a'u llaw lath.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Llawer o siarad Saesneg, athrawes yn rhoi sylw 40 munud i mewn i'r wers ond roedd y disgyblion dal i siarad Saesneg. Penderfynodd yr athrawes symud un fachgen (X) gan ei fod yn amharu ar eraill. Ond wrth symud, dechreuodd amharu ar ddysgu disgyblion eraill. Wneud bachgen X o chwistrellu dŵr ar y fachgen dws nesat iddo, mae nawr yn wlyb ac yn anghyfforddus ac yn dechrau chwarae o gumpas, dim stor a dim sylw o'r athrawes.

b.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y wers: 12:35-1:10. Addysg Gortfrol - ar ôl cinio. Pêl-droed. (20 o ddysgyblion)
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Nid ar y dechrau - efallai wedi cythra ar ôl cael cinio, ond wrth setydlu'r wers a'r amcanion awaeth y bechgyn dechrau canolbwyntio.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Amcanion clir ar lafar ar ddechrau'r gwers, wrth roi adborth, cyfeiriodd yn nwl i amcanion y wers i weld os mae nhw'n lyddianus.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Athro yn brofedd i'r dosbarth fel dosbarth, fel grŵp o 5/10, a hetyd yn unigol i helpu wella eu sgiliau. Herio'r hyfforddwr "beth yn tactegau'r tîm arall?"
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) • Wnaeth y + a anghofiodd ei cit 'enill' y rôl fel hyfforddwr felly yn rhoi nhw'r her o hyfforddi eu tîm ac i ddadansoddi tactegau'r tîm arall.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Llawer o asesu dealltwriaeth ar lafar, gofyn y bechgyn "Beth sy'n mynd yn dda? Sut galluch gwella?"
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? • Wnaeth pedwar bachgen anghofio'u cit Addysg Gortfrol, fel canlyniad penderfynodd yr athro rhoi'r 4 ohony'n nhw fel rôl hyfforddwr. Felly yn lle peidio cymryd rhan neu edrych ar ôl yr offer maent nawr yn chwarae rôl hanfodol i'r wers.

C.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y wers: 1:05yr - 3:00yr. Planes: amodau gweithio adeg y chwyldro diwydiadol. Gwers olaf (21 o ddysgyblion)
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Plant yn canolbwyntio, yn amlwg yn mwynhau technegau dysgu yr athrawes ac yn deall diwylliant y dosbarth - gan gyfeirio yn nôl at reolau'r dosbarth.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) • Amcanion clir ar ddechrau'r gwers, dysgyblion yn cyfrannu gan roi enghreifftiau o amodau gweithio cyfarwydd i nhw, e.e dyn tân, cogydd.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) • Athrawes yn glir, yn enwedig â amseru.
Mynediad a her (Ydy pob myfyrwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwr ei herio?) • Efallai nid eu 'herio', ond cerddedd yr athrawes o gympas yr ystod yn ystod pob tasg i ddyn siarad a phob dysgybl i helpu.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Ar ddechrau'r gwers gofynnodd yr athrawes cwestiynau ynglŷn â'r gwers blaenorol. Ar ddiwedd y gwers... ⁽¹⁾
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? • Cyfeirio yn nôl at reolau'r dosbarth i geisio ^{osgoi} lymddygial drwg. • Pethau Cymraeg idiomaau, "Gobaith Canary", Maths: 12d=1s. Gwyddoniaeth: nwyon wael/perygus. • Exit Cards: roedd rhaid i bob dysgybl ateb â rhywbeth gwahanol ac felly yn guthis ei ddysgyblion i feddwl yn ddifnach am beth dypgon nhw. (1) catodd pob dysgybl 'exit card', roedd rhaid i bob dysgybl yprgufennu rhywbeth dypgon nhw yn y gwers.

ch.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y wers: 10:45-11:40 y.b. Gwen Saesneg - gwella a chynhyddu eu iaith Trydydd gwen, ar ôl egwyl.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Disgynhion yn mwynhau'r tasg, ond roedd rhai wedi dihatsu oherwydd treuliodd yr athrawes llawer o amser ar y tasg.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Amcanion y gwen ar y bwrdd gwyn, ond yn tratod yn fwy dwfn ar latar gan gael y plant i gyfrannu i brofi eu gwybodaeth blaenorol.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Amcanion clir am sut, & i wneud yn dda, rhoi esiamplau ei hunain ac yn ysgirfennu esiamplau da y disgynhion ar y bwrdd gwyn.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Y dang yn gyffredinol yn un anodd, felly aeth yr athrawes o gumpas y dosbarth gan rhoi "shortcut" i'r disgynhion a oedd yn ffynhion anodd.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Ar ddiwedd "pa geiriau newydd dysgoch chi?", plant yn gallu gweld yn glir beth mae nhw wedi dysgu.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Ar ddiwedd y gwers, gofynnodd yr athrawes i'r dosbarth "What new words have you learnt?" Roedd bron y dosbarth i gyd mor gyfrous i rannu ac i ddarllen eu gwaith i'r dosbarth.

d.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Rheoli ymddygiad

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	• Ceisiodd yr athrawes rheoli ymddygiad 'disgybl X' gan symud e, ond wrth uned hyn, dechreuodd disgybl X amharu ar ei gyfoedion - teimlat yn anghyfforddus.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	• Gan nad oedd symud disgybl X yn helpu na rheoli ei ymddygiad; roedd hyn yn siomedig. yn enwedig ar y disgyblion a oedd yn cael eu amharu. • Wrth ofyn i disgybl X i symud, dechreuodd yr athrawes iaith a iaith corfforol positif.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysig? "What was the cause of the most important disappointing element?"	• Y prysigrwydd o gadw iaith a iaith corfforol yn positif, i allu sicrhau addysgu effeithiol gan greu awyrgylch positif. • Fel arsylwyr, sylweddolaf yr effaith ymddygiad gall un disgybl cael ar weiddill y dosbarth.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materiau siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	• Er mwyn ceisio osgoi un disgybl effeithio ar addysgu gweddill y dosbarth, gall symud y disgybl i addeg ar ben ei hun, neu ofyn os oes well ganddo orffen y dasg eto'r athrawes yn ystod amser cinio.
Y profiad newydd / Transformed experience	

dd.



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Cynhwysiad

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Wrth wyllo'r athro yn penderfynnu rhai'r 4, a wnaeth anghofio eu cit, y rôl fel hyfforddwyr, teimlais yn dda gan wybod nad oedden nhw mynd i golligwrs.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a oeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	• Pethau da yn cynnwys bod pawb wedi cymryd man, hyd yn oed fel hyfforddwyr yn chwarae rôl hanfodol gan ddysgu bach o theori i'r bêl-dred. Cafon nhw'r cyfle i gysylltu i wybodaeth blaencrool â'u hoff ddim e.e. Caerdydd. • Ond cafon nhw stur negyddol o flaen y dasbarth a dasbarth arall, achosodd embaras.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysigaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	• Cadw'r rôl o hyfforddwyr, ond nid oherwydd eu bod wedi anghofio eu cit, gall dysgu sgiliau cymdeithasol hanfodol e.e. cytathrebu ac osod targedau. Gallynt hetyd quella ar sgiliau chwaraeon ei hun. • Nad oedd angen achosi embaras o flaen y dan dasbarth, ond dilyn y gweithdrefn e.e. nodyn, corb.
Casgliadau a chmau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	I barhau i gynnwys y rôl hyfforddwyr mewn mwy o wersi i sicrhau quelliant y disgyblion yn y pwnc, i allu gweld beth sy'n gweithio a beth sydd ddim. Gall weithredu ffordd i ganmol y disgyblion sydd yn dod â'u cit, atgyfnerthu positif.
Y profiad newydd / Transformed experience	

e.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/2019.

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Rheolau'r dosbarth.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Teimladau positif ar ôl gweld y newid yn ymddygiad y disgyblion ar ôl atgoffa'r dosbarth eu bod nhw yn dechrau torri'r rheolau dosbarth.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a oeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Un o'r elfennau siomedig oedd bod "argyfwng" drws nesaf ac felly roedd rhaid i'r athrawes gadael am bump munud. Efallai wnaeth yr 'argyfwng' a'r athrawes yn gadael cynhyrta y disgyblion.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysigaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	With drafod â'r dosbarth ac egluro ei bod yn torri'r rheolau, defnyddiodd yr athrawes iaith positif, yn enwedig wrth ddwedu bod nhw'n dechrau torri'r rheolau. Yn awgrymu bod hi'n hawdd i nhw newid eu ymddygiad i beldio torri'r rheolau.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	Efallai er mwyn helpu y dosbarth cotio rheolau'r dosbarth gall creu poster ar flaen y dosbarth a gweld os mae pwyntio at y poster yn helpu. I weithian'r tarfu ar y gwers.
Y profiad newydd / Transformed experience	

f.

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Canmoliaeth

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	• Wrth arsylwi ar y ffordd maeth yr athrawes canmol y dosbarth ac unigolion, gwelais yr effaith uniongyrchol positif cafodd hyn ar y plant.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a oeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	• Nad oedd yn bosib i'r athrawes canmol pob disgynt yn unigol trwy'r gwrs. Ond ar y llaw arall roedd yr athrawes yn cerdded o gumpas yr ystafell i gethogi ac yna canmol y disgyblion llai medrus gan rhannu 'shortcuts' efo nhw.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	• Byddaf yn cadw'r un egni positif, ac ar ddiwedd y wers gofyn "pa geiriau newydd dysgoch chi?" ohenydd roedd y disgyblion i gyd mor barod a chyffrous i rannu â gredidill y dosbarth. Yr achos o'r elfen mwyaf siomedig oedd diffyg amser - ond nad oes ffordd i oresgyn hyn.
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	• Y cam nesaf bydd i weithredu system mewn i'r wers fel 'exit cards' i gael cofnod ysgrifenedig o beth dysgon nhw.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Cyfeirnodau –

1. Allan, J. a Slee, R. (2008) *Doing Inclusive Research*. Rotterdam: Sense Publishers.
2. Banta, T. W. (2002) *Building a Scholarship of Assessment*. San Francisco: Jossey-Bass.
3. Basit, T. (2010) *Conducting Research In Educational Contexts*. Llundain: Continuum.
4. Bassey, M. (1999) *Case Study Research In Education Settings*. Buckingham: Open University Press.
5. Black P. et al (2002) *Working Inside the Black Box: Assessment for Learning in the Classroom*, Llundain: Kings College: Department of Education and Professional Studies,
6. British Educational Research Association [BERA] (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research*, pedwerydd argraffiad, Llundain. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethicalguidelines-for-educational-research-20>
7. Burton, D. a Bartlett, S. (2009), *Key Issues for Education Researchers*, Llundain: Sage Publications.
8. Cohen, L. Et al, (2007) *Research Methods in Education*. Oxon: Routledge.
9. Daniels, H. (2012) *An Introduction to Vygotsky* (Ail argraffiad). Llundain: Routledge.
10. Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. Ar gael yn: <https://gweddiill.gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> (Dyddiad Mynediad: 01/10/2019).
11. Ein Rhanbarth ar Waith [ERW] (2015) *A Brief Guide to Assessment in Schools*. Ar gael yn: <https://www.erw.wales/media/1106/20151106-assessment-guidance-final.pdf> (Dyddiad mynediad 05/10/2019).
12. Estyn (2017) *Addrodiad ar* [redacted]. Hawlfraint y Goron. Ar gael yn: [https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20\[redacted\].pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20[redacted].pdf) . (Dyddiad mynediad 29/09/2019).
13. Flyvbjerg, B. (2006) *Five Misunderstandings About Case-Study Research*, Qualitative Inquiry, Cyfrol 12 Rhif 2 (Tud.219-245).
14. Fy Ysgol Lleol, (2018) [redacted], Royal Statistical Society. Ar gael yn: [http://mylocalschool.wales.gov.uk/\[redacted\]lang=cy](http://mylocalschool.wales.gov.uk/[redacted]lang=cy) (Dyddiad Mynediad 29/09/2019).
15. Holt, J. (2009) *How Children Learn (Revised edition)*. Efrog Newydd: Da Capo Press.
16. Joshi, K. R. (2018), *Critical Incidents for Teachers' Professional Development*, Journal of NELTA Surkhet, cyfr. 5, (tud. 82-88).
17. Krull, E. et al, (2010) *Promoting student teachers' lesson analysis and observation skills by using Gagné's model of an instructional unit*, Journal of Education for Teaching, cyfr. 36, No. 2, tud. 197–210.

18. Lichtman, M. (2013) *Qualitative Research in Education: A User's Guide*, California: Sage Publications.
19. Llywodraeth Cymru (2019) *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. Dyddiad mynediad: 15/10/2019. Ar gael yn: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/9c/06/b9/58/b1ca47568dafc2dbaea3942b/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf>.
20. McGill, R. M. (2013) *100 Ideas for Secondary Teachers: Outstanding Lessons*. Llundain: Bloomsbury.
21. McLead, S. (2019) *The Zone of Proximal Development and Scaffolding*. Simply Psychology. Dyddiad mynediad: 10/10/2019. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/Zone-of-Proximal-Development.html>
22. Morgan, N. S. (2009) *Quick, Easy and Effective Behaviour Management Ideas for the Classroom*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.
23. Powell, S. a Tummons, J. (2011) *Inclusive Practice in the Lifelong Learning Sector*. Exeter: Learning Matters LTD.
24. Race, P. (2001) *A Briefing on Self, Peer and Group Assessment*. York: Race Learning and Teaching Support Network.
25. Race, P. (2006) *The Lecturer's Toolkit: A Practical Guide to Assessment, Learning and Teaching*. Llundain: Routledge.
26. Richards, L. (2009) *Handling Qualitative Data: A Practical Guide*, Ail argraffiad. Llundain: Sage.
27. Rogers, B. (2012) *You Know The Fair Rule* (Trydydd Argraffiad) Lloegr: Pearson.
28. Sadik, F. (2017) *Children and Discipline: Investigating Secondary School Students' Preception of Discipline through Metaphors*, European Journal of Educational Research, Cyfrol 7, Argraffiad 1, tud. 31-44.
29. Shapria-Lishchinsky, O. (2011) *Teachers'critical incidents: Ethical dilemmas in teaching practice*, Teaching and Teacher Education 27, 648-656.
30. Tilstone, C. a Rose, R. (2003), *Strategies to Promote Inclusive Practice*. Llundain: Routledge Falmer.
31. Tripp, D. (2012) *Critical Incidents in Teaching: Developing Professional Judgement*. Llundain: Routledge.
32. Voko, K., Duci, V. a Tahsini, I. (2014) *Role of Teachers in Support of Individual Holistic Development According to the Age Groups*. Tirana: Save the Children.